

## JONES, RICHARD ('o'r Wern'; 1772? - 1833), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd a llenor

**Enw:** Richard Jones  
**Dyddiad geni:** 1772?  
**Dyddiad marw:** 1833  
**Rhiant:** Margaret Prichard  
**Rhiant:** John Prichard  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd a llenor  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu  
**Awdur:** Richard Thomas

unig fab John a Margaret Prichard, Coed-cae-du, plwyf Llanystumdwy. Cafodd dymhorau byrion o ysgol o dan [Robert Jones](#), Rhoslan, ym Mrynengan, ac wedyn gyda [John Roberts](#), Llanllyfni. Bu hefyd am ddwy ysbaid yn ddisgybl i [Evan Richardson](#) yn Llangybi a Brynengan. Pan oedd yn 14 oed bu gorfod arno ymroddi i waith fferm. Ymhen rhyw ddwy flynedd profodd ddeffroad meddyliol, a'i hanes wedyn oedd darllen, ehangu ei wybodaeth, ac ymddiwyllo. Yr oedd cylch ei ddarllen yn eang - hanes, hynafiaethau, barddoniaeth (fel y dengys ei waith yn dilyn dosbarthiadau '[Dafydd Ddu Eryri](#)' yn Llanystumdwy) yn ogystal â materion gwleidyddol a chymdeithasol. Er iddo, meddir, gael y cynnig i fyned yn gyfreithiwr, dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1794. Bu ef a'i deulu yng Nghoed-cae-du hyd 1816 - y flwyddyn yr ordeiniwyd ef - ac, wedi iddynt fod rhyw dair blynedd yn Llwynimpia, Clynngog Fawr, symudwyd i'r Wern, Llanfrothen, ac wrth y lle hwnnw y cysylltwyd ei enw rhagllaw.

Daeth y Wern yn gartref i grefydd. Credai Richard Jones fwy mewn ysgol Sul a Beibl agored nag mewn dogma o eiddo dynion, a bu'n werth ganddo wneuthur dau holwyddoreg o ddwy ris ar y *Beibl*. Ceir amryw o'i gynhyrchion yn *Seren Gomer*, *Goleuad Cymru*, a'r *Drysorfa* dan yr enw 'Cymro Gwylt.' Tua'r flwyddyn 1815, yng nghyfnod poethaf y ddadl boenus ar y 'Prynedigaeth a Helaethrwydd yr lawn,' a'i hen gyfaill, [John Elias](#), yn cerdded yn agos iawn i'r dibyn, daliodd Richard Jones ei dir yn eofn. Ceir hanes pur lawn am y ddadl yn *Cofiant John Jones, Talysarn*, gan [Owen Thomas](#), cyf. ii, 560-77. Fel pregethwr, er nad oedd na llithrig na huawdl, câi wrandawriad parod oblegid yr oedd yng nghynnwys ei genadwri gyflawnder a newydddeb. Yn 1829, cyhoeddwyd *Drych y Dadleuwr*. Dywed yn y rhagymadrodd, 'Fy amcan ... ydyw nid dadleu ... ond ceisio dangos yr ynfyrwydd cyffredinol y mae pleidgarwch (dadleuol) yn gwyro dynion iddo.' Yn 1835 cyhoeddwyd casgliad o'i emynau dan yr enw *Hymnau a Chaneuon Ysbrydol a Duwiol*, dan olygiaeth [John Elias](#). Bu farw 26 Chwefror 1833. [Ar 11 Ionawr 1772 y bedyddiwyd ef.]

### Awdur

Y Parchedig Richard Thomas, (1872 - 1950)

### Ffynonellau

D. D. Williams, *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, xviii, 46-59

John Jones (Tremadog), *Cofiant y diweddar Barch Richard Jones, gynt o Wern Llanfrothen, Swydd Feirionydd yr hwn oedd yn weinidog yr Efengyl ynghyfundeb y Trefnyddion Calfinaidd* (Caerlleon 1834)

'Glaslyn' yn *Cymru (O.M.E.)*, vii, 41-6

'Glaslyn' yn *Y Traethodydd*, 1906, 223-9

J. Thickens, *Emynau a'u Hawduriaid* (1945), 163

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru (Aberdâr 1867-70)*, i, 655-8

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

*Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru* (1870), 629

*Y Gwyddoniadur Cymreig* (1889-96)

J. Jones ('Myrddin Fardd'), *Enwogion Sir Gaernarfon* (1922)

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Richard Jones](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [61330437](#)

Wikidata: [Q18535729](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

